# P-04-328 Cynigion i Foderneiddio Gwasanaeth Gwylwyr y Glannau gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

## Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wneud asesiadau risg annibynnol o'r effaith ar ddiogelwch twristiaid sy'n ymweld â'r arfordir a fyddai'n dod yn sgil cau Canolfannau Cydgysylltu Achub ar y Môr Aberdaugleddau a Chaergybi ac israddio'r Ganolfan yn Abertawe i weithredu yn ystod 'oriau dydd'.

## Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Graham Warlow a chasglwyd 293 o lofnodion arni. Mae gwybodaeth gefnogol gan y deisebwr a gohebiaeth gan y Pwyllgor i'r Gweinidog dros Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi'u cynnwys isod.